## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 23 Medi 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 16 Medi 2003

**Dadl Plaid Leiafrifol**

**NDM1613 Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn condemnio methiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno rhaglen i fynd i'r afael â'r argyfwng yn y gwasanaeth iechyd, y lefelau cynyddol o ddyled ymysg myfyrwyr, a'r bwlch cyfoeth sy'n tyfu fwyfwy rhwng Cymru a Lloegr.

**NDM1614 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y cyn Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, "Dyfodol Cynlluniau Amaeth-amgylchedd yng Nghymru", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Ebrill 2003.

**NDM1615 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cysylltiad amlwg rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, a iechyd a lles.

2. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol.

3. Yn croesawu llwyddiant y cynllun nofio am ddim i blant ysgol a gynhaliwyd dros yr haf.

4. Yn croesawu cyhoeddi strategaeth ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol: "Dringo'n Uwch".

*Anfonwyd "Dringo'n Uwch: Chwaraeon a Hamdden Egnïol yng Nghymru - Strategaeth Ymgynghori" drwy e-bost at yr Aelodau ddydd Mawrth 8 Gorffennaf 2003. Mae'r ddogfen gyhoeddedig ar gael yn: http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/sport/sports-active-e.pdf*
*http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/sport/sports-active-w.pdf*

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 18 Medi 2003**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1613**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘At hynny, mae'r Cynulliad yn condemnio Llywodraeth y Cynulliad am fethu â derbyn y cyfrifoldeb am yr argyfwng sy'n ymwneud ag ELWA.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu popeth ar ôl "gyflwyno" a rhoi yn ei le:

'rhaglen gynhwysfawr i'w thrafod yn ail sesiwn y Cynulliad Cenedlaethol.'

**NDM1615**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4:

'a hefyd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn y strategaeth.'

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'ac yn cydnabod bod nofio yn un o nifer o weithgareddau hamdden sy'n fuddiol i iechyd a lles y dylent fod ar gael am ddim i blant a phobl ifanc o dan 16 oed mewn cyfleusterau awdurdodau lleol.'

**3. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu ei ymrwymiad i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol.'

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu ‘Yn croesawu llwyddiant y’ a rhoi ‘Yn nodi ffaeleddau y’ yn ei le.

**5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mhwynt 4, rhoi 'Yn nodi' yn lle 'Yn croesawu'